**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Canllaw i’r wybodaeth sydd ar gael dan y Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth**

Mae cynllun cyhoeddi yn nodi’r mathau o wybodaeth y dylai awdurdod cyhoeddus ei darparu fel mater o drefn. Dylai'r wybodaeth fod yn hawdd i unrhyw unigolyn ei chanfod a'i defnyddio.

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus fabwysiadu cynllun cyhoeddi a gymeradwyir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Er mwyn lleihau dyblygu a biwrocratiaeth ac i sicrhau cysondeb wrth ryddhau gwybodaeth, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi datblygu cynlluniau cyhoeddi enghreifftiol. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) yn gorff cyhoeddus annosbarthedig. Fodd bynnag, at ddibenion yr atodlen bydd yn defnyddio'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol ar gyfer cyrff anadrannol y llywodraeth.

Mae ein canllaw ar y wybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi wedi’i strwythuro yn unol â’r saith dosbarth o wybodaeth yng nghynllun cyhoeddi enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer cyrff anadrannol y llywodraeth. Ni fyddwn yn codi tâl am wybodaeth y gofynnir amdani o dan ein cynllun cyhoeddi.

Os hoffech gopi caled o’r wybodaeth sydd ar gael neu unrhyw wybodaeth bellach am y cynllun, cysylltwch â:

Suzanne Dodds
Suzanne.dodds@professionalstandards.org.uk

**Rhif Ffôn**: 0207 389 8030

Info@professionalstandards.org.uk

**Pwy ydym ni, a'r hyn a wnawn – gwybodaeth gyfredol yn unig**

| Gwybodaeth | Fformat |
|---|---|
| **Rolau a Chyfrifoldebau** | |
| Gwybodaeth am ein rôl, swyddogaeth a phwerau.<br>Gwybodaeth am ein gwerthoedd a'n hegwyddorion<br>Gwybodaeth am rolau, cyfrifoldebau a manylion bywgraffyddol Grŵp y Cyfarwyddwyr ac aelodau'r Bwrdd ac Aelodau'r Awdurdod<br>Manylion aelodaeth ein pwyllgor<br>Cod ymddygiad aelodau'r Bwrdd | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| **Strwythur Sefydliadol** | |
| Gwybodaeth am ein strwythur mewnol a sut mae hyn yn berthnasol i'n rôl, pwerau a chyfrifoldebau<br><br>Siart sefydliadol<br><br>Lleoliad a manylion cyswllt | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| **Deddfwriaeth** | |
| Esboniad o sail ddeddfwriaethol ein gweithgareddau<br><br>• Deddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002<br>• Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |

| | |
|---|---|
| • Rheoliadau yr Awdurdod (Penodiadau, Gweithdrefnau ac ati) 2008<br>• Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 | |

| **Sefydliadau rydyn ni'n gweithio â nhw** | |
|---|---|
| Rhestr o’r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw a gwybodaeth sy’n ymwneud â nhw:<br>• Y rheolyddion a dolenni i'w gwefannau<br>• Cofrestrau Achrededig a dolenni i'w gwefannau<br>• Gwybodaeth am sut i ymuno â'n rhwydweithiau rhanddeiliaid proffesiynol a chyhoeddus a chwestiynau cyffredin<br>• Cynllun cysylltiadau allanol<br>• Cynllun cyfathrebu strategol | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |

**Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario – gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd flaenorol**

| **Gwybodaeth** | **Fformat** |
|---|---|
| **Gwybodaeth ariannol i alluogi’r cyhoedd i weld sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus** | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| Adroddiad blynyddol a Chyfrifon (fersiynau Cymraeg a Saesneg)<br><br>Manylion lletygarwch a ddarparwyd i uwch staff ac aelodau bwrdd | |

| | |
|---|---|
| Treuliau aelodau'r Bwrdd a Grŵp y Cyfarwyddwyr<br><br>Manylion yr holl wariant dros £25,000<br><br>Ystadegau talu | |
| **Strwythur tâl a graddio** | Ar gael ar gais<br><br>Ar-lein |
| Graddfeydd cyflog<br><br>Graddfeydd cyflog uwch staff | |
| **Prosesau caffael a thendro** | |
| Manylion y gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer caffael nwyddau a chontractau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer tendr cyhoeddus<br><br>Rhestr o gontractau a ddyfarnwyd drwy broses dendro gyhoeddus a'u gwerth | Ar gael ar ffurf copi caled ar gais<br><br>Ar-lein |

**Beth yw ein blaenoriaethau a sut ydym ni'n cyflawni – gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r tair blynedd flaenorol**

| Gwybodaeth | Fformat |
|---|---|

| **Strategaethau a chynlluniau, dangosyddion perfformiad, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau** | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol<br><br>Cynllun Cyfathrebu Strategol yr Awdurdod<br><br>Cynllun Perthnasau Allanol | Y 3 blwyddyn ariannol ddiweddaraf ar gael ar-lein. Mae fersiynau hŷn ar gael ar gais.<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |

**Sut rydym yn gwneud penderfyniadau – gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r tair blynedd flaenorol**

| **Gwybodaeth** | **Fformat** |
|---|---|
| **Polisi a Chanllaw** | |
| Canllawiau a gweithdrefnau yn ymwneud â rheolyddion statudol<br><br>Canllawiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'n cynllun Cofrestrau Achredig<br><br>Adroddiadau am y rheolyddion<br><br>Cyngor polisi<br><br>Cynllun Iaith Gymraeg | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan neu ar gael ar gais |

| | |
|---|---|
| **Ymgynghoriadau cyhoeddus – papurau ymgynghori a chanlyniadau'r ymarfer ymgynghori** | |
| Ymgynghoriadau a gynhaliwyd fel rhan o'n gwaith<br><br>Ein hymatebion i ymgynghoriadau | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan neu ar gael ar gais |
| **Cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod** | |
| Agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd<br>Papurau<br>Cofnodion pwyllgorau craffu | Ar-lein<br>Mae papurau ar gael ar gais ar ffurf copi caled<br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| **Canllawiau cyfathrebu mewnol a meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau** | |
| Proses Adolygu Perfformiad, safonau ac offeryn asesu risg<br>Cwynion am bolisïau cyrff rheoleiddio proffesiynau iechyd<br>Dogfennau proses a chanllawiau (a29)<br>Camau cychwynnol y broses archwilio a chanllawiau<br>Amserlen archwilio<br>Cod Ymddygiad Archwilwyr<br>Canllawiau a gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus<br>Fframwaith polisi'r Awdurdod<br>Gweithdrefn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan neu ar gael ar gais |

**Polisïau a gweithdrefnau – gwybodaeth gyfredol ar gael yn unig**

| Gwybodaeth | Fformat |
|---|---|
| **Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes adrannol, darparu gwasanaethau a recriwtio a chyflogi staff** | Ar-lein neu ar gael ar gais.<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| 1. Polisi a gweithdrefn presenoldeb<br>2. Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredd<br>3. Gweithdrefn gallu<br>4. Polisi a gweithdrefn Disgyblu a Diswyddo<br>5. Canllawiau i weithwyr ar gyfer gwerthusiadau<br>6. Cynllun Cyfle Cyfartal a Chydraddoldeb Hiliol<br>7. Polisi Triniaeth Deg<br>8. Gweithio Hyblyg – Polisi a gweithdrefn Hawl i Wneud Cais<br>9. Polisi a gweithdrefn cwyno<br>10. Polisi iechyd a diogelwch<br>11. Polisi a gweithdrefn Sefydlu Staff<br>12. Cod Ymddygiad TGCh<br>13. Polisi gweithiwr unigol<br>14. Polisi absenoldeb mamolaeth<br>15. Polisi absenoldeb tadolaeth<br>16. Polisi absenoldeb rhiant a dibynnydd<br>17. Polisi a gweithdrefn cyfnodau prawf<br>18. Gweithdrefn diswyddo<br>19. Polisi datblygu staff<br>20. Polisi treuliau staff<br>21. Polisi straen yn y gwaith<br>22. Polisi chwythu'r chwiban<br>23. Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd yr Awdurdod | |
| **Y weithdrefn gwyno** | |

| | |
|---|---|
| Polisi cwynion amdanom ni<br>Polisi cyswllt afresymol o daer ac ymddygiad annerbyniol<br>Cwynion am Fwrdd yr Awdurdod | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| **Polisïau llywodraethu diogelwch gwybodaeth**<br>1. Polisi Deddf Diogelu Data<br>2. Log datgeliadau<br>3. Polisi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br>4. Canllaw i'r wybodaeth sydd ar gael trwy Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br>5. Siarter Gwybodaeth<br>6. Polisi Risg Gwybodaeth<br>7. Polisi preifatrwydd<br>8. Diogelu data personol a sensitif<br>9. Polisi creu a chynnal cofnodion<br>10. Polisi gwaredu cofnodion<br>11. Polisi symud dogfennau a TG yn cynnwys data personol a sensitif | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |

**Rhestrau a chofrestrau – gwybodaeth gyfredol yn unig**

| Gwybodaeth | Fformat |
|---|---|
| **Log datgeliadau** | |
| Log yn nodi pa wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â chais Rhyddid Gwybodaeth | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |
| **Cofrestr rhoddion** | |
| Cofrestr rhoddion a lletygarwch a ddarparwyd i aelodau Bwrdd yr Awdurdod ac aelodau staff | Ar gael ar gais |
| **Cofrestr buddiannau** | |
| Cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd<br><br>Cofrestr o fuddiannau staff uwch | Ar-lein<br><br>Ar gael ar gais |

**Y gwasanaethau rydym yn eu cynnig – gwybodaeth gyfredol yn unig**

| Gwybodaeth | Fformat |
|---|---|
| **Taflenni, llyfrynnau, cylchlythyrau, cyngor, canllawiau a datganiadau i'r cyfryngau** | |
| | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan |

| | |
|---|---|
| • Nodiadau cyfarfod achos adran 29[1]<br>• Gorchmynion cydsynio a dyfarniadau – adran 29<br>• Atgyfeiriadau llys – adran 29<br>• Ystadegau ar achosion addasrwydd i ymarfer – adran 29<br>• Polisi ADR<br>• Rhestr wirio'r Cadeirydd ar gyfer cyfarfodydd achos adran 29<br>• Canllawiau adran 29 ar gyfer panelwyr cyfarfodydd achos<br>• Proses a chanllawiau Adran 29<br>• Ffactorau risg Adran 29<br>• Adroddiadau Adolygu Perfformiad<br>• Trosolwg o'r Adolygiad Perfformiad<br>• Adroddiad Archwilio ar gamau cychwynnol y broses addasrwydd i ymarfer<br>• E Gylchlythyr yr Awdurdod<br>• Canllawiau cwynion (hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen) | Ar-lein<br><br>Copi wedi ei argraffu o'r wefan neu ar gael ar gais |

[1] *Nodiadau cyfarfod achos a Gorchmynion Llys*

- Rydym yn cyhoeddi holl nodiadau cyfarfodydd achos ar gyfer cyfarfodydd achos a gynhaliwyd yn y ddwy flynedd flaenorol ar ein gwefan a phob Gorchymyn Llys. Mae rhai o nodiadau'r cyfarfod achos a Gorchmynion Llys wedi'u golygu naill ai lle bu gorchymyn anhysbysrwydd mewn perthynas ag achos llys neu i ddileu enw'r sawl sydd wedi cofrestru ac unrhyw fanylion eraill a allai ddatgelu pwy ydynt

- Rydym yn golygu manylion adnabod o nodiadau cyfarfodydd achos lle:
    - Penderfynodd y pwyllgor addasrwydd i ymarfer nad oedd amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer, ac nid yw'r penderfyniad hwnnw wedi'i wrthdroi gan y llys/pwyllgor addasrwydd i ymarfer arall
    - Cynhaliwyd y gwrandawiad addasrwydd i ymarfer yn breifat
    - Gosododd y pwyllgor addasrwydd i ymarfer sancsiwn sydd â dyddiad dod i ben ac mae'r sancsiwn wedi dod i ben
    - Canfu'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer fod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer ond ni roddodd sancsiwn – rydym yn golygu nodyn y cyfarfod achos ar ôl cyfnod o chwe mis.

Sylwch y gellir gofyn am gopïau heb eu golygu trwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gyda rheolau'r Ddeddf yn weithredol

| | |
|---|---|
| • Delio â chwynion<br>• Papurau ymchwil<br>• Cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion<br>• Cyngor Polisi<br>• Adroddiadau<br>• Ymatebion i'r ymgynghoriad<br>• Safbwyntiau<br>• Asesiadau, polisïau a gweithdrefnau cofrestrau achrededig | |